




05/10/2026

## Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd

Byddwn yn dathlu diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd yr Urdd ar ddydd Llun y $5^{ed}$ o Hydref. Bydd Mistar Urdd ei hun yn galw heibio'r ysgol yn y bore! Ar y diwrnod gall y plant ddewis:

- gwisgo mewn lliwiau coch, gwyn neu wyrdd

Gofynnwn yn garedig am gyfraniad o £1 y plentyn tuag at Gylch Ystwyth yr Urdd.

## *Coch, Gwyn a Gwyrdd Day*

*We will celebrate the Urdd's Red, White and Green day on Monday the $5^{th}$ of October. Mistar Urdd himself will be calling by the school during the morning!*
*On the day the children can choose to:*

- *wear red, white or green colours*

*We kindly ask for a donation of £1 per child towards the Urdd's Ystwyth Area.*

---




05/10/2026

## Dydd Llun – heol ar gau

Cofiwch fydd yr heol unffordd y tu allan i'r ysgol ar gau ddydd Llun nesaf, y $5^{ed}$ o Hydref oherwydd ein bod yn arllwys concrit i'r slab.

Rhannwyd llythyr ac atodiadau (map ac ati) gyda holl rieni'r ysgol drwy e-bost ar 29/09/26 – gweld copi o'r llythyr

Gwnewch bob ymdrech i ddilyn canllawiau'r llythyr os gwelwch yn dda (ee parcio i ffwrdd o'r ysgol, gwneud mwy o ymdrech i ddod heb gar ac ati) a chymerwch ofal arbennig yn yr ardaloedd lle bydd loriau yn mynychu'r ysgol.

## *Monday – road closure*

*Please remember that the one-way road outside the school will be closed next Monday, $5^{th}$ of October, as we will be pouring concrete.*

*A letter and attachments (map etc.) were shared with all parents by email on 29/09/26*
*see copy of letter*

*Please make every effort to follow the guidance in the letter (e.g. park away from the school, make an extra effort to travel without a car, etc.) and take particular care in the areas where lorries will be accessing the school.*

---

TEMPEST
PHOTOGRAPHY

06/10/2026

## Tynnu lluniau unigol a theuluol

Bydd cwmni ffotograffiaeth Tempest yn yr ysgol i dynnu lluniau unigolion a theuluoedd yn Neuadd yr ysgol ddydd Mawrth nesaf – y $6^{ed}$ o Hydref.

Os oes gennych unrhyw drefniadau arbennig e.e. tynnu llun teulu gyda disgyblion uwchradd neu fabis/plant cyn oed ysgol, yna dewch i'r ysgol erbyn 8:10 y bore. Bydd unigolion a theuluoedd sydd yn ddisgyblion yn yr ysgol yn tynnu eu lluniau yn ystod y diwrnod ysgol rhwng 9:00 a 3:30yp.

## *Individual and family photographs*

*Tempest photography company will be at the school to take pictures of individuals and families in the school hall next Tuesday - the $6^{th}$ of October.*

*If you have any special arrangements i.e. a family photo with secondary school pupils or babies/pre-school children, then come to school by 8:10 in the morning. Individuals and families who are pupils at the school will have their photos taken during the school day between 9:00 and 3:30pm.*

---

**06/10/2026**

## Cyfarfod Blynyddol y G.RH.A

Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol yn Neuadd yr ysgol nos Fawrth y 6ed o Hydref am 6 o'r gloch.

Beth yw Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon?

- Crynodeb o ddigwyddiadau'r flwyddyn academaidd flaenorol a faint o arian a godwyd i'r ysgol.
- Cyfle i drafod syniadau ar gyfer digwyddiadau eleni.
- Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael

Nid oes unrhyw ymrwymiad i ymuno â'r GRhA os byddwch yn mynychu'r Cyfarfod Blynyddol, mae croeso mawr i bawb!
Ac os ydych chi'n hapus i roi help llaw yn un o'n digwyddiadau neu os hoffech chi gymryd rhan fwy gweithredol yn y GRhA, anfonwch e-bost atom – crha.ysgol.gymraeg@gmail.com

## *PTA Annual General Meeting*

*The PTA AGM will be held in the School Hall on Tuesday 6th October at 6 o'clock.*

*What is the PTA Annual General Meeting?*

- *A recap on the previous academic year's events and how much money was raised for the school.*
- *An opportunity to discuss ideas for this year's events.*
- *There will be instantaneous translation available*

*There is no commitment to joining or taking part in the PTA if you attend the AGM, everyone is very welcome! And if you're happy to lend a hand at one of our events or would like to take a more active role in the PTA please email us at crha.ysgol.gymraeg@gmail.com*

---



**08/10/2026**

## Traws gwlad Cylch Aberystwyth

Ar ddydd Iau yr 8fed o Hydref bydd rasys traws gwlad Cylch Aberystwyth yn cael eu cynnal ar gaeau Ysgol Penweddig (lleoliad newydd eleni)

Bydd y ras gyntaf yn cychwyn am 10 o'r gloch y bore. Byddwn yn dilyn y drefn rasys blwyddyn 3, 4, 5 a 6 gan obeithio i orffen tua 11:30yb Mae croeso i chi fel rhieni a gwarcheidwaid ddod i gefnogi'r digwyddiad hwn. I gyrraedd y cae, ewch i Ysgol Penweddig a dilyn y llwybr i'r chwith o'r adeilad i'r cefn (i ardal Caeau Chwarae'r Mini Minors foreau Sadwrn)

## *Aberystwyth Area Cross-Country*

*On Thursday the 8th of October, the Aberystwyth Area cross-country races will be held on the fields of Penweddig (new venue this year)*

*The first race will start at 10:00am. We will follow the race order for Years 3, 4, 5 and 6, hoping to finish around 11:30am. Parents and guardians are welcome to come and support this event. To reach the field, go to Ysgol Penweddig and follow the path to the left of the building around to the back (to the area used for Mini Minors football on Saturday mornings).*

---

**08/10/2026**

## Ailgylchu dillad – Bag2School

Bydd y bagiau yn cael eu casglu **ddydd Iau** wythnos nesaf (8fed o Hydref) Mae croeso i chi ddefnyddio bagiau clir ailgylchu hefyd os nad yw'r bag Bag2School gyda chi. Bydd y bagiau yn cael pwyso a bydd yr ysgol yn derbyn arian amdanynt.

Gwyliwch y fideo hon i ddysgu mwy am Bag2School.

## *Clothes recycling – Bag2School*

*The bags will be collected on **Thursday** next week (8th October) You are also welcome to use clear recycling bags if you do not have the Bag2School bag with you. The bags will be weighed and the school will receive money for them.*

*Watch this video to learn more about Bag2School.*

---



**09/10/2026**

## Diwrnod Rhyngwladol

Bydd ein Diwrnod Rhyngwladol yn cael ei gynnal **ddydd Gwener nesaf, Hydref 9fed** – gwahoddir disgyblion i ddod i'r ysgol mewn gwisgoedd sy'n cynrychioli'r wlad y byddant yn eu hastudio:

| | |
|---|---|
| Meithrin | Cymru |
| Derbyn | Yr Alban |
| Blwyddyn 1a2 | Yr Eidal |
| Blwyddyn 3a4 | Ffrainc |
| Blwyddyn 5 | Yr Ariannin |
| Blwyddyn 6 | India |

## *International Day*

*International Day will be held **next Friday, October 9th** - pupils are invited to come to school in costumes that represent the country they will be learning about:*

| | |
|---|---|
| Nursery | Wales |
| Reception | Scotland |
| Years 1&2 | Italy |
| Years 3&4 | France |
| Year 5 | Argentina |
| Year 6 | India |




## Heddlu wrth y giât

Ry'n ni'n ddiolchgar i aelodau o'r Heddlu am ddod i ddweud helo wrth y giât bore ddoe. Eu bwriad yw i geisio dod i gyfarch y plant yn amlach wrth iddynt gyrraedd yr ysgol yn y bore, a chael cyfle i gadw golwg ar y drefn foreol y tu allan i'r ysgol.

## *Police at the gate*

*We are grateful to members of the Police for coming to say hello at the school gate yesterday morning. Their intention is to visit more regularly to greet the children as they arrive at school in the morning, as well as having an opportunity to observe the morning arrangements outside the school.*

---

## Ymaelodi gyda'r Urdd

Ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd rydym yn annog disgyblion i ymaelodi gyda'r Urdd. Medrwch wneud hynny drwy fynd i Ymuno | Urdd Gobaith Cymru
Trwy fod yn aelod byddwch yn medru mynychu Clwb yr Urdd (Bl.1-6) a chymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon ac eisteddfodol yn ystod y flwyddyn.

## *Urdd Membership*

*At the start of a new school year we encourage pupils to join the Urdd. You can do so by going to* Join | Urdd Gobaith Cymru

*By being a member you will be able to attend Clwb yr Urdd (Yrs.1-6) and take part in sports and eisteddfod competitions during the year.*

---




## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor
Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## *Half term Calendar*

*Here is the link to the Half Term Calendar*
*A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

---

### Dyddiadau pwysig Tymor yr hydref:

- Tynnu lluniau unigol a theuluoedd : Hydref $6^{ed}$
- Cyfarfod Blynyddol y G.Rh.A : Hydref $6^{ed}$
- Brechlyn y ffliw : Hydref $7^{fed}$
- Traws gwlad Cylch Aber : Hydref $8^{fed}$
- Diwrnod Rhyngwladol : Hydref $9^{fed}$
- Nosweithiau Agored : Hydref $19^{eg}$ ac $20^{fed}$
- Diwrnod olaf yr hanner tymor hwn : Hydref $23^{ain}$
- Cyngerdd Nadolig : Rhagfyr $10^{fed}$

### *Autumn term important dates:*

- *Individual and family photographs : October $6^{th}$*
- *PTA Annual General Meeting : October $6^{th}$*
- *Flu immunisation : October $7^{th}$*
- *Aberystwyth Cross Country : October $8^{th}$*
- *International Day : October $9^{th}$*
- *Open Evenings : October $19^{th}$ and $20^{th}$*
- *Last day of this half term : October $23^{rd}$*
- *Christmas concert : December $10^{th}$*

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**
***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth / *Headteacher***
**02/10/2026**
www.ysgolgymraeg.cymru


DIWRNOD COCH, GWYN A GWYRDD
Urdd Gobaith Cymru
Cylch Ystwyth
05/10/26
Ymunwch â'r Hwyl ar ddiwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd Urdd Ceredigion
Dewch i'r ysgol yn gwisgo Coch, Gwyn a Gwyrdd!
• Ymweliad gan Mistar Urdd.
• Hwyl a sbri!
Fe Fo


Pontio PENWEDDIG 2026-27
· 05/10/2026 ·
16:45 – 18:00
Noson Agored
Cyfle i Ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 ymweld â Phenweddig
Croeso cynnes i rieni / gwarcheidwad
Open Evening
An opportunity for Year 5 and 6 pupils to visit Penweddig
Parents / guardians are warmly invited
Ymunwch â ni er mwyn cael blas o'r hyn sydd ar gael ym Mhenweddig.
Join us in order to get a taste of what is available at Penweddig.
Te, coffi a sgwash yn y Ffreutur
16:45
Tea, coffee and squash in the Canteen
Cyflwyniad gan y Pennaeth yn y neuadd (Yr un cyflwyniad yn cael ei ailadrodd am 17:30)
17:05 & 17:30
Presentation by the Headteacher in the hall (Same presentation repeated at 17:30)
Crwydro o gwmpas yr ysgol er mwyn cwrdd â staff, disgyblion a phrofi'r cyfoeth o adnoddau sydd ar gael i hybu dysgu ac addysgu effeithiol
17:30
An opportunity to tour the school in order to meet the staff, pupils and experience the wealth of resources available to promote effective teaching and learning
Mi fydd aelodau o'r Tîm Arwain ynghyd â'r Llywodraethwyr ar gael drwy gydol y noson yn yr Hwb er mwyn ateb unrhyw ymholiadau.
Members of the Leadership Team together with the Governors will be available throughout the evening in the Hwb to answer any queries.
CYMREICTOD · PARCH · YMDRECH


Years 5 & 6
OPEN EVENING
NOSON AGORED
Blynyddoedd 5 a 6
Tuesday 6 October
between 6 and 8pm
We would like to invite you to our Open Evening here at Penglais.
There will be opportunities for you to meet the teachers, and visit classrooms and take part in activities. There will also be a series of short talks to Year 6 parents, guardians and pupils in the Main Hall. There will be an opportunity to ask questions after each talk.
Come and meet us!
Dydd Mawrth 6 Hydref
rhwng 6 ac 8yh
Hoffem eich gwahodd i Noson Agored yma ym Mhenglais.
Bydd cyfle i gwrdd ag athrawon, i ymweld â'r ystafelloedd dysgu ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Bydd cyfres o anerchiadau byr i rieni Blwyddyn 6, gwarcheidwaid a disgyblion yn y Brif Neuadd. Bydd cyfle hefyd am gwestiynau ar ôl pob anerchiad.
Dewch i gwrdd â ni!
Ysgol Penglais


Portreadau proffesiynol wedi'u lluniadu â llaw
10.5 x 15cm
Mewn pryd ar gyfer y Nadolig
£20 yr un
£5 am bob plentyn ychwanegol
Archebwch nawr
e-bost: rachjadetyler@gmail.com
whatsapp: 07415773552
Bydd 75% o'r elw cael ei roi i Gylch Meithrin Aberystwyth
tytylerart.com
Cylch Meithrin Aberystwyth
mudiad meithrin


Hand drawn portraits
Professionally drawn portrait, 10.5 x 15cm
In time for Christmas
£20 each
£5 for each additional child
Order now
email: rachjadetyler@gmail.com
whatsapp: 07415773552
75% of proceeds going to Cylch Meithrin Aberystwyth
tytylerart.com
Cylch Meithrin Aberystwyth
mudiad meithrin


Rotary
Ardal Aberystwyth
HALLOWEEN
TREASURE HUNT
HELFA DRYSOR
CALAN GAEAF
WHERE/BLE:SGWÂR OWAIN GLYNDWR
WHEN/PRYD: OCTOBER 31 HYDREF
TIME/AMSER:11AM-4PM
PRICE/PRIS £2
ALL WELCOME/CROESO I BAWB
All proceeds going to the
POPPY APPEAL